



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Parcyrhun
Heol Villiers
Rhydaman
Caeryrddin
Sir Gaerfyrddin
SA18 3HB**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2017

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Parcyrhun ar gyrion tref Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Mae gan yr ysgol ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg a defnyddir y ddwy iaith ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae gan yr ysgol uned arbennig ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu clyw.

Mae ychydig dros 25% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim. Mae gan 42% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol sy'n cynnwys 12 disgybl sydd wedi'u cofrestru yn yr uned arbennig. Daw 6% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd, ac mae 8% o gefndir lleiafrif ethnig.

Ar hyn o bryd, mae 196 disgybl ar gofrestr yr ysgol, ffigwr sy'n cynnwys 21 disgybl meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 8 dosbarth oed cymysg. Cyflogir 10 o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth a 2 athrawes ran-amser. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2010. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Ionawr 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Parcyrhun yn 2016 - 2017 yw £4,280. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae'r ysgol yn yr 20fed safle o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ardderchog sy'n rhoi mynediad cyflawn iddynt i gwricwlwm cyffrous ac eang
- y rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd rhagorol ar draws y cwricwlwm
- bron pob disgybl yn mwynhau'r gweithgareddau dysgu, ac yn meddu ar agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- bron pob disgybl yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau estynedig, yn ymateb yn reddfol i ddisgwyliadau athrawon ac yn dangos balchder gwirioneddol yn eu gwaith
- bron pob un disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf yn gweithio'n llwyddiannus heb ddibynnu gormod ar ymyrraeth gan oedolion
- staff yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu arbennig sy'n ysgogi brwdfrydedd bron pob disgybl
- athrawon yn llwyddo i danio chwilfrydedd disgyblion yn effeithiol iawn, gan hybu eu hawydd parhaus i ddysgu
- yr addysgu rhagorol ym mhob dosbarth, dros amser, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar sicrhau deilliannau ardderchog i'r disgyblion
- y staff yn creu adnoddau a gemau arloesol ac unigryw eu hunain i godi medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn llwyddiannus

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol effeithiol sy'n seiliedig ar weledigaeth glir a phenderfynol sy'n canolbwyntio'n effeithiol iawn ar ddatblygu addysgu rhagorol
- gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o reolwyr, staff a disgyblion sy'n sicrhau hinsawdd effeithiol o hunanwella er mwyn datblygu addysgu cyffrous ac effeithiol gyson ar draws yr ysgol
- gan yr ysgol strwythur rheoli ac arwain cadarn sy'n rhoi cyfleoedd ardderchog i ddatblygu medrau arweinyddol ymysg y staff
- y staff yn rhannu'r un nodau clir ar gyfer llwyddiant, sy'n hyrwyddo ethos o ragoriaeth mewn dysgu
- y pennaeth, yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda

- cylch hunanarfarnu wedi'i wreiddio'n gadarn ym mywyd yr ysgol a bod pob aelod o staff yn cyfrannu'n bwrpasol er mwyn creu darlun cywir o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella
- y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr wedi creu ethos o welliant parhaus sy'n sicrhau gwelliannau nodedig mewn mannau pwysig
- y cydweithio sy'n bodoli rhwng yr athrawon yn y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn elfen eithriadol effeithiol o waith yr ysgol sy'n sicrhau ethos a safon dysgu ac addysgu hynod effeithiol

Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i wneud penderfyniadau sy'n dylanwadu ar eu dysgu eu hunain

A2 Datblygu ymhellach rôl aelodau'r corff llywodraethol wrth adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol, yn datblygu'n ddysgwyr cydwybodol, hyderus ac annibynnol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn fuan iawn, sy'n rhoi mynediad cyflawn iddynt i gwricwlwm cyffrous ac eang. Yn gyffredinol, mae llawer yn dechrau'r ysgol gyda medrau sydd yn llawer is na'r cyfartaledd. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd rhagorol ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn cyflawni ar lefel sy'n sylweddol uwch na'r hyn a ragwelwyd, o ystyried eu cyrhaeddiad cychwynol. Mae'r perfformiad hwn yn gyson dros amser.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o ddisgyblion y ddwy ffrwd yn cymhwysu eu medrau llythrennedd yn effeithiol iawn. Mae hyn yn gryfder nodedig, yn enwedig ymysg llawer o ddisgyblion iau'r ffrwd Gymraeg. Mae medrau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn siarad yn agored ac yn synhwyrol iawn am eu gwaith ac yn cyfrannu'n frwdfrydig yn ystod trafodaethau dosbarth. Maent yn defnyddio geirfa ac ymadroddion coeth a chynyddol gymhleth yn effeithiol. Mae medrau llafaredd llawer ymhell uwchlaw disgwyliadau arferol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth dda iawn o wahanol arddulliau ysgrifennu. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae bron pob un yn creu darnau estynedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau sy'n cynnwys disgrifiadau diddorol a chreadigol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn caffael eu huwch fedrau darllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth allweddol yn gyflym o wahanol gyfeirlyfrau a gwefannau amrywiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu ar eu profiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu gallu i gymhwysu'u medrau ysgrifennu yn effeithiol iawn. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth aeddfed o arddulliau ysgrifennu ac yn creu gwaith estynedig a chreadigol yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau darllen llyfrau Cymraeg a Saesneg, a gwnânt gynnydd cryf iawn. Mae llawer yn defnyddio ystod eang o uwch fedrau darllen yn llwyddiannus i ddarganfod a dadansoddi gwybodaeth. Er enghraifft, maent wedi astudio tai crwn yn oes y Celtiaid, casglu ffeithiau am ystlumod a chyflwyno gwybodaeth am ffigwr hanesyddol fel Susan Rees. Mae medrau trawsieithu llawer yn bwrpasol ac mae'r rhan fwyaf yn crynhoi ac yn cyflwyno prif bwyntiau testun yn synhwyrol, gan ddefnyddio is-benawdau a chasgliadau lle bo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg, yn trin rhifau hyd at 100 yn hyderus, ac yn cyfrif ymlaen ac ôl fesul dau a phump yn gywir. Mae llawer ohonynt yn deall mesuriadau safonol ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am nodweddion siapiau dau a thri dimensiwn. Mae'r

rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus iawn mewn meysydd dysgu eraill, gyda'r disgyblion hŷn yn gwneud hyn yn hynod effeithiol. Er enghraifft, wrth gynllunio parti priodas ar gyfer Culhwch ac Olwen, maent yn ystyried costau bwyd mewn archfarchnadoedd gwahanol yn gampus er mwyn sicrhau gwerth da am arian.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni'n arbennig o dda yn ystod gwersi mathemateg. Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf yn datblygu'n ardderchog. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn datblygu strategaethau llwyddiannus eu hunain wrth ymgymryd â thasgau ymchwiliol heriol tu hwnt. Er enghraifft, maent yn cyfrifo beth fyddai eu pwysau ar wahanol blanedau yn ddeallus. Trwy gyflawni tasgau fel hyn, maent yn dysgu sut i ddadansoddi gwybodaeth, datrys problemau a datblygu medrau meddwl yn effeithiol iawn.

Yn y ffrwd Saesneg, o oed cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da iawn o ran dysgu'r Gymraeg a dangosant agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith. Mae bron pob un yn cynnal y cynnydd a'r brwdfrydedd hwn yn ystod gwersi Cymraeg trwy gydol cyfnod allweddol 2 ac yn creu darnau o waith ysgrifennu estynedig a blogiau diddorol.

Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r uned arbennig yn gwneud cynnydd da iawn o'u manau cychwyn. Mae safon medrau llythrennedd a rhifedd lleiafrif ohonynt yn ardderchog. Mae bron pob un yn cydweithio â'u cyfoedion yn llwyddiannus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus iawn mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn paratoi cyflwyniadau i gynulleidfaoedd gwahanol, yn creu darluniau, graffiau, taenlenni a phosteri pwrpasol ac yn prosesu geiriau yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn cymhwyso eu medrau TGCh yn dda iawn ar draws y cwricwlwm ac yn datblygu eu medrau codio yn briodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau meddwl.

Dros amser, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn ar y deilliannau a'r lefelau disgwylidig nac uwch. Nid oes patrwm amlwg yng nghyflawniadau disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyrhaeddiad y disgyblion ar y deilliant disgwylidig yn yr holl feysydd dysgu, wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y deilliant uwch yn gyffredinol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is.

Mae cyrhaeddiad y disgyblion dros yr un cyfnod ar gyfer y lefel ddisgwylidig ym mhob un o'r pynciau, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch o ysgolion tebyg. Ar y lefelau uwch, mae cyrhaeddiad disgyblion yn fwy anghyson, gan amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is ar gyfer yr holl bynciau.

Lles: Da

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn adnabod a gwerthfawrogi cefnogaeth gadarn yr athrawon a'r cynorthwyr. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn cyfranogi'n hyderus mewn ystod eang o weithgareddau corfforol yn ystod amser chwarae ac ar ôl ysgol.

Mae bron pob un yn mwynhau'r gweithgareddau dysgu ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu a phob elfen o fywyd yr ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion ac mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau estynedig o ystyried eu hoed. Maent yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn ymateb yn reddfodol i ddisgwyliadau uchel yr athrawon, gan weithio'n ofalus er mwyn cynhyrchu gwaith taclus o safon uchel ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol da iawn, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn arbennig o dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais, ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n llwyddiannus heb orddibyniaeth ar ymyrraeth gan oedolion. Mae hyn yn gryfder drwy'r ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol at gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cwrdd â'r llywodraethwyr yn achlysurol er mwyn rhannu gwybodaeth am eu gwaith. Mae hwn wedi codi proffil y cyngor, ynghyd â phwysigrwydd llais y disgybl ym mywyd yr ysgol. Mae gan y cyngor ysgol a'r cyngor eco amcanion clir ar gyfer y flwyddyn. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta'n iach yn ystod amser chwarae, ac maent yn codi arian ar gyfer gweithgareddau Nadolig. Fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan digon blaenllaw wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneud penderfyniadau pwysig sy'n dylanwadu ar eu dysgu eu hunain.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi codi safle'r ysgol o'r 25% isaf i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae absenoldebau parhaus wedi gostwng yn arwyddocaol dros y cyfnod hwn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu arbennig o effeithiol sy'n ysgogi brwdfrydedd bron pob disgybl. Mae'n darparu cynlluniau gwaith o safon uchel, sy'n galluogi athrawon i danio chwilfrydedd y disgyblion, a'u hawydd parhaus i ddysgu. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi'u gwreiddio'n gadarn ac, o ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd allanol a thu mewn o ansawdd uchel iawn ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn hynod effeithiol.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei sefydlu'n llwyddiannus iawn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hon yn nodwedd gref ac yn arwain at gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn drefnus mewn cyd-destunau pwrpasol ymhob gwrs ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn llwyddiannus iawn trwy gynnig gweithgareddau allgyrsiol diddorol iddynt a thrwy ddarparu cyfleoedd iddynt ymweld â mannau eraill, gan gynnwys canolfannau preswyl. Mae'r ystod eang o ymwelwyr i'r ysgol, a'r clybiau a drefnir, yn ehangu profiadau'r disgyblion yn dda ac yn datblygu medrau meddwl a chymdeithasol bron pob un yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r clwb

arwyddo ar gyfer yr holl ddisgyblion yn sicrhau bod disgyblion yr uned arbennig yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgarwch y cwricwlwm. Mae'r cynllunio er mwyn cymhwyso disgyblion yn ardderchog.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau TGCh y disgyblion yn llwyddiannus iawn ac mae'r staff yn sicrhau bod cyfleoedd cyson i alluogi'r rhan fwyaf i ddefnyddio ystod eang o'r medrau hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen trwy ddefnydd arbennig o TGCh yn ardderchog.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn y ffrwd Saesneg. Mae'r defnydd helaeth o'r Gymraeg yn y gwasanaethau a'r defnydd graenus o'r iaith gan athrawon a chynorthwyr yn y gwersi yn sicrhau safonau arbennig o uchel. Mae'r disgyblion yn manteisio yn eithriadol o dda ar gyfleoedd niferus i ddysgu am ddiwylliant a hanes lleol a Chymru. Mae'r gweithgareddau hyn yn ennyn ethos Cymreig naturiol sy'n hyrwyddo balchder y disgyblion yn yr iaith ac yn eu treftadaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd llwyddiannus i alluogi disgyblion i ddysgu sut i fyw bywyd cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn tyfu llysiau, yn ailgylchu dillad ac yn hybu gweithgareddau i arbed ynni. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau ymestynnol er mwyn datblygu disgyblion yn ddinasyddion goddefgar ac ystyrlon y dyfodol. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd arbennig i ddisgyblion drafod eu teimladau yn aeddfed ac yn gyfrifol, er enghraifft wrth ystyried yr angen am fanc bwyd yn Rhydaman. Mae'r cynlluniau gwaith yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gelfyddydau, crefyddau a thraddodiadau gwledydd eraill trwy waith thema a'u cysylltiad ag ysgol i ddisgyblion sydd â nam ar eu clyw yn Zanzibar.

Addysgu: Rhagorol

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r cysondeb sy'n bodoli yn safon ragorol yr addysgu ym mhob dosbarth, dros amser, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau ardderchog y disgyblion. Mae pob athro yn darparu tasgau o ansawdd uchel iawn, sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl; yn bodloni eu hanghenion, ac yn eu herio'n dda iawn i gyflawni safonau uchel. Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at agwedd gadarnhaol y disgyblion tuag at ddysgu, ynghyd â'r cynnydd y maent yn ei wneud. Mae athrawon a chynorthwyr yn cydweithio'n arbennig o lwyddiannus er mwyn creu awyrgylch lle mae pob disgybl yn awyddus i roi o'u gorau.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion ym mron pob gwrs o ansawdd uchel iawn. Mae cadernid cyson y cynllunio a'r addysgu ym mhob dosbarth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau bron pob disgybl. Mae bron pob athro yn darparu gweithgareddau penodol sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigolion grwpiau yn llwyddiannus iawn. Maent yn creu a chyflwyno adnoddau a gemau arloesol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae pob athro yn sicrhau cyflymder da yn eu gwersi, sy'n arwain at lefelau ymrwymiad uchel iawn ymysg y disgyblion. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o feini prawf llwyddiant er mwyn annog disgyblion i werthuso eu cynnydd eu hunain yn llwyddiannus. Mae bron pob aelod o staff yn fodel iaith gwych. Maent yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn asesu dealltwriaeth yn dda iawn trwy ymyrraeth synhwyrol ac effeithiol.

Mae pob athro yn cynnig sylwadau ysgrifenedig defnyddiol ac adborth llafar ysgogol i ddisgyblion. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd cyson dda i ddisgyblion ymateb yn gadarnhaol a gwella eu gwaith yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn canmol ymdrech disgyblion unigol yn hynod llwyddiannus, gan ddathlu eu llwyddiant yn academaidd, ym maes chwaraeon ac yn y byd celfyddydol yn unol â'u hoed a'u gallu.

Mae bron pob athro yn defnyddio gweithdrefn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn er mwyn targedu unigolion a grwpiau penodol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn defnyddio ystod eang o asesiadau gan gynnwys profion safonol er mwyn gwerthuso a mireinio unrhyw ddarpariaeth benodol yn fedrus ar gyfer bron pob disgybl a chynllunio'r camau nesaf ar eu cyfer yn ofalus. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd pob disgybl gan ddangos ffordd ymlaen yn glir.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r staff yn darparu ansawdd da o ofal ac arweiniad sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau gwerthfawr ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Enghraifft dda o hyn yw'r clwb coginio sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion greu ryseitiau iach ar gyfer eu teuluoedd. Mae bron pob disgybl yn deall sut i gadw'n ddiogel. Cefnogir hyn yn dda trwy weithgareddau'r Clwb Clic sy'n addysgu disgyblion sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngwyd.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy ystod eang o glybiau allgyrsiol, gweithgareddau'r cwricwlwm a gwasanaethau buddiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o barchu safbwyntiau ei gilydd. Mae'r ethos hwn o gydfodolaeth a chydweithio yn galluogi'r rhan fwyaf i gyrraedd safonau lles cadarn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol yn fuan ac maent yn darparu cymorth effeithiol yn gyson. Mae'r staff yn defnyddio cynlluniau addysg unigol yn briodol i sicrhau bod rhan fwyaf o'r ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn tuag at gyrraedd targedau heriol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd medrus o arbenigedd asiantaethau allanol yn ddyddiol er mwyn cefnogi disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau clywedol yn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion yr uned arbennig. Mae arweinwyr yn monitro ac yn adolygu cynnydd y disgyblion hyn yn llwyddiannus er

mwyn adnabod y camau nesaf yn eu datblygiad. Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus sy'n cefnogi anghenion disgyblion unigol a'u teuluoedd yn dda. Mae prosiect 'Gorwelion' yn cael effaith arbennig ar ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol disgyblion bregus ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gyfeillgar, gefnogol a theuluol sy'n hyrwyddo ethos hyfryd lle mae bron pob un disgybl yn cael cyfleoedd gwerthfawr i'w galluogi i lwyddo.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais uchel ar amrywiaeth, cydraddoldeb a pharch ym mhob agwedd o'i gwaith. Enghraifft ardderchog o hyn yw'r modd y mae athrawon yn integreiddio disgyblion yr uned yn llwyr ym mywyd yr ysgol. Mae sicrhau cyflecycfartal a chynhwysiad yn flaenoriaethau amlwg gan yr holl staff ac mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd rhagorol o arddangosfeydd ysgogol o waith disgyblion i greu awyrgylch ddysgu symbylus sy'n cefnogi'r dysgu yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn dathlu safonau uchel y disgyblion ar draws yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Enghraifft wych o hyn yw'r modd y mae'n arddangos gwaith celf y disgyblion gyda balchder, ochr yn ochr â gwaith artistiaid adnabyddus o Gymru. Mae hyn yn rhoi bri ar ymdrechion y disgyblion.

Cynhelir yr adeilad a thir yr ysgol i safon uchel iawn. Mae staff yn gwneud defnydd ymestynnol o'r ardaloedd tu allan yn llwyddiannus er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer y disgyblion y Cyfnod Sylfaen a datblygu medrau corfforol unigolion ar draws yr ysgol. Mae'r wal ddringo, yr offer chwaraeon yn yr ardaloedd dan do, a'r ardd yn cyfrannu'n ardderchog at ddatblygu awydd y disgyblion i fod yn chwilfrydig a bywiog. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o ddeunydd technolegol ac mae bron pob disgybl yn gwneud defnydd effeithiol o lechi electronig i gefnogi'u haddysg.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o effeithiol, sy'n seiliedig ar weledigaeth glir a phenderfynol ar gyfer yr ysgol. Mae'n darparu cyfeiriad strategol clir a gwerthfawr sy'n canolbwyntio'n effeithiol iawn ar ddatblygu addysgu rhagorol. Mae ei disgwyliadau uchel o reolwyr, staff a disgyblion yn sicrhau cyfarwyddyd a diwylliant sy'n arwain at welliant parhaus. Mae'n llywio pob agwedd a blaengaredd, gan gynnwys rhai sy'n datblygu blaenoriaethau cenedlaethol, yn fedrus fel ei bod yn cael dylanwad amlwg a chadarnhaol ar y safonau uchel a gyflawnir gan ran fwyaf o'r disgyblion yn gyson.

Mae gan yr uwch dîm rheoli rolau a chyfrifoldebau penodol a chdir, sy'n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at welliannau. Maent wedi datblygu trefniadau effeithiol iawn er mwyn monitro safonau addysgu athrawon yn y ddwy ffrwd. Mae ganddynt ffocws clir ar gefnogi a herio eu perfformiad eu hunain er mwyn codi safonau disgyblion, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn nodwedd ragorol o waith yr arweinwyr ac wedi arwain at hinsawdd effeithiol o hunanwella er mwyn sicrhau addysgu cyffrous ac effeithiol gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu strwythur rheoli ac arwain cadarn sy'n rhoi cyfleoedd ardderchog i ddatblygu medrau arweinyddol ymysg y staff pan fydd uwch aelodau yn cael dyrchafiad i swyddi eraill neu'n ymgymryd â chyfnodau sabothol. Mae'r staff yn rhannu'r un nodau clir ar gyfer llwyddiant, sy'n hyrwyddo ethos o ragoriaeth mewn dysgu. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n benodol ar gynlluniau gwella ac yn rhoi pwyslais cadarn ar adolygu penderfyniadau blaenorol yn rheolaidd er mwyn adnabod a gwerthuso cynnydd.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth, sy'n ymwneud â chynnydd a chyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt drosolwg cadarn o gryfderau'r ysgol ac ymwybyddiaeth glir o'i pherfformiad o gymharu ag ysgolion eraill. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn synhwyrol i ddwyn yr ysgol i gyfrif pan fo angen ac i gefnogi'r uwch dim rheoli wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun datblygu. Mae ganddynt ystod o bwyllgorau addas sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau statudol yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi'u diffinio'n glir ac maent yn berthnasol i'r holl staff sy'n gweithio yn yr ysgol. Mae eu targedau perfformiad yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol at wella a chynnal safonau'r addysgu, ynghyd â deilliannau uchel y disgyblion dros gyfnod.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr sy'n dangos bod y pennaeth, yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae gan yr ysgol gylch hunanarfarnu sydd wedi'i wreiddio'n gadarn fel rhan naturiol o'i gwaith ac mae pob aelod staff yn cyfrannu'n bwrpasol ati. Mae'r broses yn cynnwys ystod eang o weithgarwch addas i gywain tystiolaeth a chreu darlun cywir o'r sefyllfa gyfredol. Ceir wythnos fonitro yn dymhorol, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr a staff gyfrannu'n effeithiol at y weithdrefn, trwy ddadansoddi data, ystyried llwyddiant rhaglenni ymyrraeth, craffu ar waith disgyblion a monitro gwersi. Mae cydlynwyr yn paratoi adroddiadau arfarnol ar eu meysydd cyfrifoldeb. O ganlyniad, erbyn diwedd y flwyddyn, mae gan arweinwyr dystiolaeth gadarn, a darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella, sy'n eu galluogi i adnabod blaenoriaethau addas ar gyfer gwella.

Er bod arweinwyr yn ymateb yn briodol i ymholiadau disgyblion, nid ydynt yn casglu eu barnau am agweddau pwysig o waith yr ysgol sy'n bwysig iddyn nhw yn ddigon systematig.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn nodi targedau perthnasol, camau gweithredu, cyfrifoldebau staff a meini prawf heriol sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion. Dros gyfnod, mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr wedi creu ethos o welliant parhaus sy'n sicrhau gwelliannau nodedig mewn mannau pwysig, yn cynnwys safonau llythrennedd a rhifedd, ynghyd â phresenoldeb. Fodd bynnag, ar adegau, er bod y blaenoriaethau yn rhai priodol, mae aelodau'r corff llywodraethol yn dibynnu gormod ar arweiniad gan y pennaeth wrth benderfynu arnynt.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn cyfoethogi profiadau disgyblion yn dda. Mae'r berthynas gref a'r cyfathrebu effeithiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am weithgareddau yn rheolaidd. Maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sut i gyfrannu at addysg eu plant, drwy fynychu gweithdai cwricwlaidd, er enghraifft.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda darparwyr addysg eraill yn yr ardal ac ar draws yr awdurdod lleol, yn cynnwys y cylch meithrin lleol, ysgolion eraill, coleg addysg bellach a phrifysgol. Mae'r berthynas agos gyda'r cylch meithrin yn galluogi plant i ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth i Flwyddyn 7. Er enghraifft, mae'r prosiect 'awyr las' yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion mwy abl a thalentog i weithio gyda disgyblion o ysgolion eraill er mwyn ymestyn eu medrau gydag arbenigwyr pwnc o'r ysgol uwchradd.

Mae trefniadau cymedroli a safoni yn y clwstwr yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb yn yr asesu ac ymwybyddiaeth gadarn athrawon o ofynion deilliannau a lefelau.

Mae partneriaethau gyda'r gymuned leol yn gadarn ac yn cynnwys cysylltiadau gyda sefydliadau lleol sy'n ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae casglu bwyd i'r banc bwyd lleol yn cynorthwyo disgyblion i sylweddoli bod tlodi a difreintedd yn bodoli yn eu hardal eu hunain yn ogystal â gwledydd eraill. Mae'r prosiect 'Coast', sy'n annog oedolion byddar i fynychu'r gweithle, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddyheadau'r disgyblion sy'n mynychu'r uned arbennig.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cynorthwyol medrus a phrofiadol i addysgu'r cwricwlwm. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol iawn. Maent yn arwain rhaglenni ymyrraeth a chefnogi yn gampus mewn dosbarthiadau ac yn rhan allweddol wrth sicrhau deilliannau uchel i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae amrediad ac ansawdd adnoddau'r ysgol yn arbennig iawn. Mae'r staff yn creu adnoddau a gemau arloesol ac unigryw eu hunain i godi medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithio'n gryf ar gynnydd disgyblion. Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae lefel ffitrwydd, medrau cydweithio a dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd a diogelwch y disgyblion yn dda iawn.

Mae'r cydweithio sy'n bodoli rhwng yr athrawon yn y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn elfen eithriadol effeithiol o waith yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi staff newydd a staff dros dro, ac yn sicrhau cysondeb yn ethos a safon y dysgu a'r addysgu rhwng y ddwy ffrwd yn hynod effeithiol.

Mae athrawon a staff cynorthwyol yn elwa o hyfforddiant buddiol sy'n deillio o'u hanghenion personol a blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, mae staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad sydd wedi gwella'u medrau i ymdopi ag anawsterau penodol disgyblion. Mae'r cydlynnydd Cymraeg yn gweithio mewn triawd gydag ysgolion lleol eraill i hybu'r iaith Gymraeg. Mae'r prosiect hwn yn galluogi staff i rannu arfer dda ac yn cefnogi gwelliant yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r pwyllgor cyllid yn rheoli'r gyllideb yn drylwyr ac yn gwneud penderfyniadau cyllidol synhwyrol, sy'n cysylltu'n glir â chynlluniau ar gyfer gwelliant, ac yn canolbwyntio'n gadarn ar wella lles a safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro effaith gwariant yn ofalus yn ogystal â'r Grant Amddifadedd Disgyblion fel rhan o'r cylch hunanarfarnu. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni o leiaf y lefelau disgwylidiedig ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol, mae'r ysgol yn darparu gwerth rhagorol am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6692050 - YSGOL GYNRADD PARCYRHUN

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	196
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	26.9
Grŵp PYD	4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	19	25	25	21
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	89.5	96.0	96.0	95.2
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	9	13	12	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	88.9	92.3	91.7	85.7
Chwarter meincnod	2	1	1	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	22.2	30.8	41.7	0.0
Chwarter meincnod	3	2	1	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	12	13	14
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	90.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	50.0	16.7	53.8	28.6
Chwarter meincnod	1	3	1	3
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	25	25	21
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	94.7	96.0	96.0	95.2
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	47.4	24.0	44.0	33.3
Chwarter meincnod	1	3	1	2
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	19	25	25	21
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	94.7	96.0	96.0	100.0
Chwarter meincnod	2	2	2	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	47.4	28.0	64.0	57.1
Chwarter meincnod	2	4	1	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6692050 - YSGOL GYNRADD PARCYRHUN

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	196
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	26.9
Grŵp PYD	4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	30	17	24	31
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	90.0	94.1	91.7	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	17	24	31
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	90.0	100.0	91.7	100.0
Chwarter meincnod	2	1	2	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	36.7	29.4	45.8	29.0
Chwarter meincnod	2	3	1	3
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	11	10	13	13
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	36.4	30.0	46.2	30.8
Chwarter meincnod	1	2	1	2
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	17	24	31
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	90.0	94.1	95.8	100.0
Chwarter meincnod	2	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	40.0	29.4	45.8	35.5
Chwarter meincnod	2	3	1	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	30	17	24	31
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	90.0	100.0	91.7	100.0
Chwarter meincnod	2	1	2	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	40.0	35.3	50.0	38.7
Chwarter meincnod	1	2	1	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	91	91 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	91	91 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	91	91 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	91	91 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	91	91 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	91	91 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	91	91 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	91	91 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	91	89 98%	2 2%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	91	91 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	91	90 99%	1 1%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	91	91 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	27	23 85%	4 15%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	26	24 92%	2 8%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	27	25 93%	2 7%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	27	22 81%	5 19%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	26	18 69%	8 31%	0 0%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	27	21 78%	6 22%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	27	20 74%	7 26%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	27	20 74%	7 26%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	27	20 74%	7 26%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	27	21 78%	6 22%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	38%	2%	0%		
My child is safe at school.	27	25 93%	2 7%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	25	20 80%	5 20%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	27	20 74%	6 22%	1 4%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	27	21 78%	6 22%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	26	16 62%	9 35%	1 4%	0 0%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	25	17 68%	8 32%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	21	15 71%	6 29%	0 0%	0 0%	4	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	25	19 76%	5 20%	1 4%	0 0%	2	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		54%	39%	6%	1%		
The school is well run.	26	22 85%	4 15%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mr Dyfrig Wyn Ellis	Arolygydd Cofnodol
Mr Gwyn Williams	Arolygydd Tîm
Mrs Sarah Jane Morgan	Arolygydd Cymheiriaid
Mr David Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Mrs Bethan Martin (Pennaeth)	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.